

PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Gwener, 28 Ionawr 2022

Cadeirydd: Cynghorydd S.M.Penry

Is-gadeirydd: Cynghorydd R.W.Wood

Cynghorwyr: C.Galsworthy, D.Keogh, W.F.Griffiths,
R.Davies, J.Hale, S.A.Knoyle, S.Jones a/ac
S.Lynch

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** M.Roberts, J.Davies, H.Hasan, P. Jackson,
K.Lewis, J.Stenlake, S.Foster, T.Davies a/ac
C.Plowman

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr M.Harvey a/ac A.Wingrave

1. CYNNAL A CHADW A RHEOLI LLEOEDD CHWARAE CYHOEDDUS

Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am reoli a chynnal a chadw lleoedd chwarae'r cyngor. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 47 o leoedd chwarae ar draws y Fwrdeistref Sirol o fewn cylch gwaith y cyngor; nid oedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys y rhai a reolir gan bartïon eraill e.e. cynghorau tref a chymuned.

Roedd Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi'r broses barhaus o arolygu ac adolygu a oedd ar waith i sicrhau bod lleoedd chwarae sy'n eiddo i'r cyngor yn parhau i fod yn ddiogel i bawb eu defnyddio; roedd yr adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am geidwad teithiol a oedd yn cynnal arolygiadau wythnosol o'r lleoedd chwarae.

Hysbyswyd y pwyllgor am y cyllidebau sy'n ymwneud â'r gwaith hwn; nodwyd swm yr arian o fewn y gyllideb refeniw ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth yn yr adroddiad, ynghyd â'r arian a

glustnodwyd tuag at gynnal a chadw lleoedd chwarae. Dywedwyd bod tua £30,000 y flwyddyn yn y gyllideb ar gyfer adnewyddu offer; dyma'r arian a oedd yn weddill ar ôl clustnodi arian ar gyfer y mesurau rheoli, arolygu a diogelwch o ddydd i ddydd.

Esboniwyd nad oedd dyraniad cyfalaf sefydlog ar gyfer adnewyddu'r offer; felly bu'n rhaid i swyddogion gyflwyno ceisiadau, yn ôl yr angen, ym mhroses y gyllideb sy'n cael ei hystyried fel rhan o rowndiau blynyddol y gyllideb. Soniwyd bod rhaglen fuddsoddi sylweddol yn parhau yn y flwyddyn gyfredol; fodd bynnag, bu'n rhaid i swyddogion aros ar y gadwyn gyflenwi o ran yr offer a oedd yn cyrraedd. Hysbyswyd yr aelodau fod y pandemig wedi amharu ar gadwyni cyflenwi ar draws nifer o feysydd gwaith.

Yn dilyn yr uchod, nodwyd bod swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr mewn gwasanaethau eraill ac yn chwilio am gyfleoedd arian cyfatebol; gweithiodd y tîm yn agos gyda'r Rheolwr Datblygu Prosiectau a Chyllid ac aelodau a oedd am ychwanegu buddsoddiad ychwanegol a gwneud gwelliannau i leoedd chwarae yn eu wardiau, drwy Gronfa Gymunedol yr aelodau. Ychwanegwyd bod Atodiad B yr adroddiad a ddisbarthwyd yn tynnu sylw at y buddsoddiad wedi'i raglennu ar gyfer lleoedd chwarae a oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, sef cyfanswm o tua £350,000. Roedd swyddogion yn obeithiol am arian ychwanegol o broses y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf; cynhwyswyd yr arian ychwanegol hwn yn yr ymgynghoriad a oedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar gyllideb refeniw'r cyngor.

Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am un o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad a ddisbarthwyd, a oedd yn ymwneud â nifer y siglenni a dynnwyd o leoedd chwarae'r cyngor yn ystod 2020 fel rhan o fodloni'r mesurau cadw pellter cymdeithasol cenedlaethol. Nodwyd bod y tîm wedi derbyn pob rhan ar gyfer y siglenni, ar wahân i lond llaw o gadwyni a oedd yn dal i fod eu hangen er mwyn ailadeiladu'r siglenni crud; Roedd swyddogion yn gobeithio y bydd y mwyafrif yn cael eu hailosod yn ystod y pythefnos nesaf, gyda'r rhai sy'n weddill erbyn diwedd Chwefror.

Cododd yr aelodau yr angen am gynllun strategol a gweledigaeth ar gyfer lleoedd chwarae, a thynnodd sylw at bwysigrwydd chwarae i blant. Mynegwyd pryderon ynghylch nifer y lleoedd chwarae a oedd gan Gastell-nedd Port Talbot, yn enwedig y diffyg mewn rhai ardaloedd; yn ogystal â'r diffyg arian i'w wario ar gynnal a chadw ac ailgyflenwi'r lleoedd chwarae. Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r aelodau mai cadw'r ardaloedd hyn yn ddiogel ac mewn trefn oedd prif

ffocws y tîm, a thynnodd sylw at y ffaith bod y gyllideb yn broblem i lawer o wasanaethau eraill o fewn y cyngor; Roedd swyddogion bob amser yn hapus i wario'r hyn a ddyrannwyd ar gyfer y mathau hyn o isadeiledd.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd ganddynt, ar hyn o bryd, y personél o fewn y Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth ar gyfer diogelwch, arolygu a chynnal a chadw offer mewn lleoedd chwarae, a chadarnhawyd bod ganddynt hynny.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r biniau gwastraff plastig a oedd wedi'u lleoli mewn rhai lleoedd chwarae sy'n eiddo i'r cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol; roedd rhai ohonynt yn destun fandaliaeth, a bu'n rhaid gosod rhai newydd sawl gwaith o fewn ychydig wythnosau. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn ymchwilio i'r mater hwn, ac yn cynnig dewis arall yn lle'r biniau plastig, lle bo hynny'n briodol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

2. GORFODI SBWRIEL, TIPIO ANGHYFREITHLON A GWASTRAFF AR YR OCHR

Derbyniodd y pwyllgor adroddiad a oedd yn amlinellu'r gweithgarwch gorfodi yr oedd y tîm yn ei wneud mewn perthynas â gorfodi sbwriel, tipio anghyfreithlon a gwastraff ar yr ochr.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y gwasanaeth hwn yn faes yr amharwyd arno'n sylweddol gan y pandemig; roedd safleoedd amwynderau dinesig wedi'u cau, gwasanaethau casgliadau swmpus wedi'u hatal ac ataliwyd proses gyfweld yr heddlu a'r Deddf Cyfiawnder Troseddol sy'n caniatáu i dystiolaeth gael ei chasglu ac erlyniadau gael eu trosglwyddo ymlaen i'r llys. Soniwyd bod y ffigurau yn yr adroddiad a ddisbarthwyd yn adlewyrchu'r tarfu hynny. Yn flaenorol, nodwyd mai Cyngor Castell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer cymryd camau gorfodi yn erbyn tipio anghyfreithlon; efallai fod hyn yn wir o hyd, fodd bynnag, roedd y niferoedd wedi lleihau, gan y byddai pob awdurdod wedi profi anawsterau yn ystod y pandemig. Esboniodd swyddogion nad oedd ganddynt y ffigurau cymharu cenedlaethol presennol hyd yma, ond roedd y math hwn o wybodaeth yn debygol o fod ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â ffyrdd ac ardaloedd heb eu mabwysiadu lle'r oedd tir wedi'i restru dan berchnogaeth breifat, lle'r oedd tipio anghyfreithlon yn broblem. Hysbyswyd yr aelodau y byddai

llawer o berchnogion tir yn ymateb ar ôl i Swyddog Gorfodi gysylltu â nhw, a byddant yn clirio'r gwastraff o'r ardal; fodd bynnag, roedd eraill a oedd yn anos cysylltu â hwy, a bu'n rhaid i swyddogion gyflwyno hysbysiadau gorfodi iddynt. Soniwyd bod rhywfaint o dir nad oedd wedi'i gofrestru, ac roedd yn heriol i swyddogion ddod o hyd i bwy oedd yn berchen ar y tir; gweithiodd y tîm yn agos gyda'r gwasanaeth prawf, sy'n mynd i'r ardaloedd preifat, anhysbys ac yn cwblhau gwaith glanhau cymunedol. Ychwanegwyd yr aethpwyd i'r afael â'r mathau hyn o ardaloedd yr un modd â'r rhai a oedd yn hysbys ac wedi'u mabwysiadu.

Gofynnwyd a allai Cynghorwyr Lleol gynorthwyo swyddogion i nodi pwyntiau 'casglu', lle'r oedd nifer mawr o sachau du yn cael eu gadael - fel y nodwyd, a fyddai'n destun ymchwiliad drwy orfodi. Cadarnhaodd Pennaeth Gofal Strydoedd fod hyn yn bosib.

Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith ei bod yn aml yn wir nad oedd y rhai y tybiwyd eu bod yn troseddu dro ar ôl tro'n cael eu galw i'r llys oherwydd diffyg tystiolaeth; felly, gofynnwyd a ellid cyflwyno datganiadau tyst fel tystiolaeth. Cadarnhaodd swyddogion y gall datganiadau tyst chwarae rôl, ond efallai y bydd angen tystiolaeth arall o hyd gan ddibynnu ar y drosedd. Cytunwyd y byddai swyddogion yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cyfreithiol i gasglu rhagor o wybodaeth am y defnydd o ddatganiadau tyst ar gyfer troseddau.

Gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn teimlo bod y lonydd â gatiau'n lleihau achosion o dipio anghyfreithlon, neu'n dwysáu'r mater; ac a fyddent yn ystyried cynllun peilot, lle y symudwyd rhai gatiau o'r ardaloedd hyn. Cydnabuwyd nad oedd y gatiau, mewn rhai ardaloedd, wedi helpu'r sefyllfa gyda gwastraff yn y lonydd, er iddynt gael eu gosod ar gyfer materion troseddu eraill. Dywedodd swyddogion fod hwn yn faes y gellid ymchwilio iddo o ran cynllun peilot, gyda chymorth y Tîm Ystadau sy'n rheoli'r gatiau, er y byddai angen i swyddogion wirio'r sefyllfa gyfreithiol ac unrhyw broses sy'n gysylltiedig â'r Gorchmynion Gatio.

Holwyd a oedd swyddogion mewn trafodaethau â busnesau fel KFC, Morrisons, McDonalds a'r tebyg, lle'r oedd preswylwyr gwirfoddol yn gweld cynnydd mewn sbwriel o amgylch y busnesau hynny. Hysbyswyd y pwyllgor fod sbwriel ar ochr y ffordd yn fater cenedlaethol; roedd gan rai o'r busnesau eu patrolau sbwriel eu hunain, ac yn y gorffennol mae swyddogion gorfodi wedi ymweld â busnesau ac wedi trafod ffyrdd amrywiol o geisio olrhain y sbwriel.

Nodwyd y byddai'r tîm yn hapus i weithio gyda Chynghorwyr Lleol ar y mater hwn, a cheisio gwneud gwelliannau yn eu hardaloedd.

Gofynnodd yr aelodau faint yn ychwanegol oedd yn cael ei wario ar finiau ailgylchu plastig; roedd llawer o'r preswylwyr wedi dweud bod eu rhai nhw wedi torri ar ôl i'w gwastraff bwyd gael ei gasglu, ac roedd angen un newydd. Gofynnwyd hefyd a oedd y plastig o'r biniau a dorwyd yn cael ei ailgylchu. Cytunodd swyddogion i gynnal dadansoddiad a rhoi manylion ffeithiol i'r aelodau am faint oedd yn cael ei wario, y tu allan i'r cyfarfod. O ran rhan olaf y cwestiwn, tynnwyd sylw at y ffaith bod y plastig wedi'i ailgylchu yn hanesyddol wrth i'r biniau gael eu disodli fel rhan o newidiadau i'r system, yn ogystal â biniau sydd wedi torri y gellid eu hailgylchu.

O ran casglu ailgylchu, mynegwyd bod aelodau wedi derbyn llawer o gwynion yn ymwneud â'r llanast a adawyd ar ôl gan bersonél. Hysbyswyd y pwyllgor fod gan y cerbydau casglu gamerâu CCTV o'u cwmpas, a oedd yn helpu swyddogion i ddeall y cwynion a wnaed; mewn rhai achosion, ni ellid cyfiawnhau'r cwynion, ond dilynwyd y rhai y gellid eu cyfiawnhau gan oruchwylwyr. Nodwyd bod arian ychwanegol yn cael ei glustnodi i'r gwasanaeth ar gyfer tâl ychwanegol, a fydd yn rhyddhau rhagor o amser goruchwyllo ar gyfer goruchwyllo ar y safle; bydd hyn yn caniatáu i'r goruchwylwyr fynd allan i'r gymuned a sicrhau bod pob agwedd ar y gwasanaeth yn cael ei darparu i'r safon briodol. Esboniodd swyddogion fod 40 aelod o staff wedi bod i ffwrdd o'r gwaith yn ddiweddar oherwydd ton ddiweddaraf y pandemig; Bu'n rhaid i swyddogion adleoli staff i wahanol ddyletswyddau a chriwiau, nad oeddent fel arfer yn gwneud y math hwn o waith, a bu'n rhaid iddynt gyflogi gweithwyr asiantaeth ychwanegol. Sicrhawyd yr aelodau fod y ffigurau'n gostwng, ac roedd y gwasanaeth yn dechrau sefydlogi eto.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r amser a gymerodd i'r aelodau gael ymateb am wybodaeth sy'n ymwneud â sbwriel ac ailgylchu. Soniwyd bod y rhestr gyswllt ar gyfer Gofal Strydoedd wedi'i diweddarau a'i dosbarthu i'r holl aelodau yn ddiweddar; dangosodd y rhestr fod swydd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff yn wag ar hyn o bryd. Hysbyswyd yr aelodau fod mesurau ad hoc, dros dro ar waith, a oedd yn golygu nad oedd rhai o'r materion a godwyd yn cael y sylw yr oedd ei angen arnynt, a allai arwain at oedi. Roedd swyddogion yn gobeithio y byddai'r swydd hon yn cael ei llenwi'n fuan i roi sylw i rai o'r materion.

Tynnodd yr aelodau sylw at broblem o ran unigolion sy'n gosod sachau du mewn biniau stryd sy'n eiddo i'r cyngor sydd wedi'u lleoli ar draws y Fwrdeistref Sirol; roedd hyn yn achosi i finiau orlifo a nifer cynyddol o sachau'n cael eu gadael wrth ymyl y biniau. Gofynnwyd a ellid gosod camerâu mewn rhai ardaloedd targed i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Cadarnhaodd swyddogion y gallent ymchwilio i ddefnyddio camera cudd mewn rhai mannau. Ychwanegodd Aelod y Cabinet hefyd y gallai cael gwared ar finiau penodol a oedd yn cael eu targedu fod yn opsiwn i ddatrys y mater hwn. Nodwyd bod y mater hwn hefyd yn cysylltu â'r rhesymau pam fod swyddogion gwastraff yn ceisio hysbysiadau dyletswydd gofal gan fusnesau yn yr ardal, er mwyn sicrhau bod gan bob busnes y contractau a'r trefniadau angenrheidiol ar waith. O ran preswylwyr, nodwyd bod y broses o gynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff wedi bod yn broses barhaus, tymor hir o newid ymddygiad, gan fod llawer o'r materion hyn yn cysylltu â'r rhai nad ydynt yn ailgylchu; er y bu newidiadau cadarnhaol o ran cynnydd cynyddol i dargedau cenedlaethol tymor hir. Cadarnhawyd y bydd swyddogion yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn i'r weinyddiaeth newydd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Blaenraglen Waith ar gyfer Pwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianneg.

CADEIRYDD